**CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol 2022 Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yng Nghlwb Mynyddcerrig ar 11/5/2022 am 19.00.**

**1/2022-2023** Presennol.
Cynghorwyr: R Jones, M Rees, R Owen, R Newell, K Waters, S Herridge, J Williams O.B.E.

Cynghorydd Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

**2/2022-2023** Ethol Cadeirydd ar gyfer 2022 – 2023.
Cynigwyd y Cyng R Jones gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Owen. Etholwyd y Cyng R Jones yn Gadeirydd yn unfrydol. Diolchodd y Cyng R Jones i'r Cyngor a dywedodd ei bod yn anrhydedd cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog. Diolchodd y Cyng R Jones i'r Cyng M Rees am ei holl waith caled a'i hymroddiad dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**3/2022-2023** Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022-2023.
Cynigwyd y Cyng S Herridge gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E. Etholwyd y Cyng S Herridge yn unfrydol yn Is-Gadeirydd. Diolchodd y Cyng S Herridge i aelodau'r cyngor am eu penderfyniad.

**4/2022-2023** Y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac aelodau'r cyngor i lofnodi datganiad o dderbyn.
Llofnododd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a holl aelodau'r cyngor y datganiad o dderbyn.

**5/2022-2023** I dderbyn ymddiheuriadau.
Cyng T Evans.

**6/2022-2023** Derbyn datganiadau o ddiddordeb.
Dim.

**7/2022-2023** Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.
Dim.

**8/2022-2023** Derbyn anerchiad y Cadeirydd sy'n ymddeol ac adroddiad ar lwfans dinesig / gwariant cyllideb.
Adroddodd y Cyng M Rees ei fod wedi bod yn anrhydedd i fod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog dros y 2 flynedd ddiwethaf a dywedodd fod defnyddio platfform ar-lein i gynnal cyfarfodydd wedi bod yn gromlin ddysgu serth i'r rhan fwyaf o aelodau'r cyngor. Diolchodd y Cyng M Rees i'r Clerc am ei holl gymorth a gwaith caled yn ystod y flwyddyn a diolchodd i'r Cyng R Jones am ei arweiniad, ei

gefnogaeth a'i gymorth gyda chyfrifon y cyngor cymuned dros y 2 flynedd diwethaf. Adlewyrchodd y Cyng M Rees ei thristwch fod y Cyng W Evans, y Cyng J Youens a'r Cyng E Davies wedi ymddeol o'r cyngor cymuned a dywedodd y byddai'n cefnogi ac yn helpu holl aelodau'r cyngor a'r gymuned yn y dyfodol.

**Rhoddion Lwfans Dinesig**

Apêl Teganau Nadolig - £100.00

Ymddiriedolaeth Canser yr Arddegau - £50.00

**9/2022-2023** Adolygu polisïau'r Cyngor a chadarnhau llofnodwyr siec ar y mandad banc.

Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru na'r SLCC ynglŷn â'r adolygiad polisi a dywedodd wrth yr aelodau nad oedd angen unrhyw newidiadau. Mae polisïau ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Llanddarog.

Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r cyngor y dylid tynnu'r Cyng W Evans o fandad y banc. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Jones.

**10/2022-2023** Penodi is-bwyllgor sefydlog cyffredinol a chylch gorchwyl y cyngor.

Penderfynwyd y byddai'r is-bwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd Llywyddol, yr Is-Gadeirydd, y Cyn-Gadeirydd ac un aelod o'r cyngor o'r plwyf perthnasol:

**Llanddarog -** Cyng T Evans.

**Porthyrhyd -** Cyng J Williams O.B.E.

**Mynyddcerrig -** Cyng R Owen, Cyng R Newell, Cyng K Waters.

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**11/2022-2023** Apwyntiadau.

Penderfynwyd fel a ganlyn:

a) **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru** – Cyng M Rees a Cyng R Jones (Presenoldeb os oes angen).
b) **Fforwm Cyswllt Cynghorau Cymuned a Thref Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyng S Herridge a Cyng R Jones.
c) **Fforwm Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyng J Williams O.B.E a Cyng S Herridge.
d) **Fforwm Chwarel Torcoed** – Cyng R Owen a Cyng R Newell.

**12/2022-2023** Penodi cynrychiolydd cymunedol ar gorff llywodraethau Ysgol Llanddarog.

Cadarnhaodd y Cyng J Williams O.B.E ei fod yn hapus i gynrychioli Cyngor Cymuned Llanddarog ar gorff llywodraethol Ysgol Llanddarog. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**13/2022-2023** Mr LM Jones - Archwiliwr Mewnol ar gyfer cyfrifon 2022-2023.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda Mr LM Jones a'i fod yn hapus i gael ei wahodd fel Archwiliwr Mewnol Cyngor Cymuned Llanddarog. Cytunodd Aelodau'r Cyngor i wahodd Mr LM Jones fel archwiliwr cyfrifon mewnol. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge. **Penderfynwyd** i'r Clerc ysgrifennu llythyr gwahoddiad at Mr LM Jones.

**14/2022-2023** Cadarnhad y Clerc fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer 2022-2023.
**Penderfynwyd** cadarnhau y Clerc. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**15/2022-2023** Cadarnhad Arholwr Ariannol Mewnol ar gyfer 2022-2023.
**Penderfynwyd** cadarnhau y Cyng R Jones. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng R Owen.

**16/2022-2023** Lwfans dinesig y Cadeirydd / swm cyllideb ar gyfer 2022-2023.
**Penderfynwyd** bod y swm yn £300 (Lwfans Dinesig). Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**17/2022-2023** Dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfodydd.
Awgrymodd y Cyng J Williams O.B.E y dylai cyfarfodydd ddychwelyd i fod yn rhai byw i ddefnyddio a chefnogi'r neuaddau pentref o fewn y gymuned. Trafodwyd y mater, a phenderfynwyd cylchdroi’r cyfarfodydd yn un o’r Neuaddau/Clwb pentref os byddai’r tywydd yn caniatáu. **Penderfynwyd** cynnal y cyfarfodydd ar ail ddydd Mercher y mis am 19.00pm (ac eithrio mis Awst). Bydd cyfarfodydd yn cychwyn yn unol â’r tabl isod.

**ATODLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR 2022-2023**

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2022** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Gorffennaf 2022** | **Neuadd Bentref Porthyrhyd** |
| **Medi 2022** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Hydref 2022** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Tachwedd 2022** | **Neuadd Bentref Porthyrhyd** |
| **Rhagfyr 2022** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Ionawr 2023** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Chwefror 2023** | **Neuadd Bentref Porthyrhyd** |
| **Mawrth 2023** | **Clwb Mynyddcerrig** |
| **Ebrill 2023** | **Neuadd Bentref Llanddarog** |
| **Mai 2023 (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)** | **Neuadd Bentref Porthyrhyd** |

***Gellir galw cyfarfodydd eraill yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen***

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**18/2022-2023** Hyfforddiant ar y cod ymddygiad a threfniadau ar gyfer unrhyw daliadau i'r Aelodau.
a. Eglurodd y Clerc ei bod yn ofynnol i holl aelodau'r Cyngor fynychu cwrs hyfforddiant Côd Ymddygiad bob 5 mlynedd. **Penderfynwyd** i’r Clerc gael gwybodaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac Un Llais Cymru ynglŷn â’r cwrs ac adrodd i aelodau’r cyngor maes o law.
Mae'r cynghorwyr canlynol angen hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad - Cyng K Waters, Cyng J Williams O.B.E, Cyng M Rees, Cyng R Owen a Cyng R Newell.
b. **Penderfynwyd** gwneud unrhyw daliadau o £150 i Aelodau yng nghyfnod treth TWE 12 y flwyddyn ariannol hon. Os bydd aelod yn gadael y Cyngor cyn i'r data

cyflogres gael ei anfon at yr asiant am gyfnod 12 yna ni fydd yn derbyn y taliad. Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau gadarnhau eu sefyllfa yn ysgrifenedig a oeddent yn hawlio'r £150 cyn gynted â phosibl. **Penderfynwyd -** Cwblhaodd pob aelod o'r cyngor oedd yn bresennol y ffurflen lwfans aelodau a'i dychwelyd at y Clerc. Cynigiodd y Cyng M Rees i ddosbarthu'r ffurflen lwfans aelodau i'r Cyng T Evans ei chwblhau.

**19/2022-2023** Daeth y cyfarfod i ben am 19.28.

Cadeirydd

________________________

Dyddiad

________________________

**CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Mai 2022 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yng Nghlwb Mynyddcerrig ar 11/5/2022 am 19.00 (Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol).**

**20/2022-2023** Presennol.
Cynghorwyr: R Jones, M Rees, R Owen, R Newell, K Waters,S Herridge, J Williams O.B.E

Cynghorydd Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

**21/2022-2023** I dderbyn ymddiheuriadau.
Cyng T Evans.

**22/2022-2023** Derbyn datganiadau o ddiddordeb.
Cyng R Jones - **34/2022-2023** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Porthyrhyd.

**23/2022-2023** Cyflei'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.
Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod i godi pryderon ynghylch cais cynllunio posib sy'n cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin yn y dyfodol agos. Dywedodd fod llawer o drigolion Porthyrhyd yn ymwybodol bod cais cynllunio posibl yn cael ei geisio ar ôl iddynt siarad â chontractwyr a syrfewyr yn gweithio ar dir yn Llwyn Henry a Wern Fraith.
Ffurfiwyd MAP (Mudiad Amddiffyn Porthyrhyd) yn 2005 i helpu'r gymuned i ddadlau yn erbyn datblygiadau tai mewn ardaloedd lle'r oedd llifogydd a lefelau penllanw rheolaidd yn digwydd yn rheolaidd. Dywedodd y byddai unrhyw ddatblygiad yn yr ardal honno yn agos at brif bibell ddŵr fawr ac ar orlifdir. Atgoffodd hi aelodau'r cyngor hefyd nad oedd y system garthffosiaeth bresennol yn ddigonol i ymdrin â datblygiad pellach gan fod materion wedi codi ynghylch nifer yr eiddo presennol. Dywedodd yr aelod cymuned wrth aelodau'r cyngor fod Wern Fraith yn ystyried datblygiad 27 o dai yng ngham 1 a datblygiad pellach posib ar weddill y tir. Awgrymodd yn gryf y dylai'r holl drigolion fod yn ymwybodol o'r mater hwn gan fod Wern Fraith yn cael ei ystyried fel y safle datblygu gwaethaf posibl yn 2012 gan ei fod ar orlifdir.
Gofynnodd yr aelod cymuned i aelodau'r cyngor fod yn effro ynghylch unrhyw geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno a gofynnodd i holl aelodau'r cyngor gefnogi eu ple yn erbyn datblygiad pellach. Diolchodd i aelodau'r cyngor am eu hamser ac am wrando ar y cyflwyniad.

Gadawodd aelod o'r cyhoedd y cyfarfod am 19.51, i beidio â dychwelyd.

**24/2022-2023** Materion Plismona a Diogelwch Ffyrdd.

Adroddodd y Cyng M Rees fod cerbydau nwyddau trwm yn defnyddio'r lôn gul o'r A48 i Gwmisfael ac yn teithio dros bont wan gul. **Penderfynwyd** i'r Cynghorydd Sir A Davies a'r Clerc adrodd i'r adran berthnasol.
Adroddodd y Cyng R Newell fod marciau ffordd ar y gyffordd ger Fferm Rhydale a Berem Bach wedi erydu ac y gallai achosi digwyddiad os bydd cerbydau'n methu stopio wrth y gyffordd. **Penderfynwyd** i'r Clerc adrodd i'r adran berthnasol.
Adroddodd y Cyng J Williams O.B.E fod y ffens wrth ymyl y gyffordd rhwng y B4310 a Ffordd Foelgastell yn achosi rhwystr i yrwyr yng nghofnod **236/2021-2022** ac ychwanegodd fod llechi bellach wedi eu gosod ar ben y wal gan achosi rhagor o rwystrau. Adroddodd y Clerc nad oedd diweddariad wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin a holodd os oedd y Cynghorydd Sir A Davies wedi trefnu cyfarfod safle gyda'r Adran Priffyrdd. Atebodd y Cynghorydd Sir A Davies nad oedd cyfarfod wedi'i drefnu ond y byddai'n cysylltu â'r adran berthnasol i drefnu ymweliad safle cyn gynted â phosibl.

**25/2022-2023** Materion y Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies.
Diolchodd y Cynghorydd Sir A Davies i'r Cadeirydd ymadawol am ei gwaith caled a'i hymroddiad yn ystod 2 flynedd ddigynsail.
Diolchodd y Cynghorydd Sir A Davies i holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol am eu cefnogaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf fel Cynghorydd Sir a cyhoeddi ei bod wedi cael ei hail-ethol yn Gynghorydd Sir. Byddai'n dychwelyd i'r cabinet fel Aelod Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig a hefyd Cynllunio a Chymunedau. Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies hefyd fod Mr Darren Price wedi'i benodi'n Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin.

**26/2022-2023** Adroddiad y Cadeirydd.
Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddarog am 2022-2023 a diolchodd i'r Cynghorydd M Rees am ei gwasanaeth dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**27/2022-2023** Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 13/04/2022.
**Penderfynwyd** cadarnhau cofnodion 13/04/2022 ac i'r clerc ddosbarthu'r cofnodion i'r Cadeirydd i'w harwyddo ar 19/05/2022. Cynigwyd gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E.

**28/2021-2022** Materion yn codi o'r cofnodion uchod.
Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.
Gofynnodd y Cyng M Rees sut y byddai'r mygiau coffaol yn cael eu dosbarthu i'r plant yn y gymuned. Trafodwyd y mater, a phenderfynwyd i'r Clerc hysbysu Ysgol Llanddarog ynglŷn â'r cyflwyniad a holi pryd fyddai'n amser a dyddiad cyfleus.
Atgoffodd y Cyng M Rees aelodau'r cyngor fod Eglwys Sant Twrog yn trefnu Cinio Mawr Jiwbilî yn Neuadd Bentref Llanddarog ar 05/06/2022.

**29/2022-2023** I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd ar ddod.

(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynnir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).
Dim.

**30/2022-2023** Cynllunio.

Dywedodd y Cyng R Jones fod aelodau o'r gymuned wedi cysylltu ag ef ynghylch y cais cynllunio posibl ar gyfer tai yn Wern Fraith, Porthyrhyd, SA32 8PT. Awgrymwyd y dylid rhoi stamp rwber ar geisiadau cynllunio ac na roddir ystyriaeth briodol i geisiadau cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd R Jones nad oedd unrhyw geisiadau cynllunio wedi dod i law ac yn ôl gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin, nid oedd Wern Fraith yn rhan o CDLl 2021 – 2033 (Cynllun Datblygu Lleol).
Dywedodd y Cynghorydd J Williams O.B.E fod y CDLl blaenorol yn dal mewn grym tan 2024 ond bod Cyngor Sir Caerfyrddin eisoes wedi datgan na fyddai unrhyw geisiadau cynllunio yn Wern Fraith yn cael eu hystyried.
Dywedodd y Cyng S Herridge fod cynlluniau'n cael eu hystyried gan fod syrfewyr wedi bod yn gweithio ar y tir.
Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies fod y tir yn Wern Fraith yn gorlifo'n barhaus ac o dan ddŵr. Cynghorodd aelodau'r cyngor i gasglu tystiolaeth cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno a gwrthwynebu i'r pwyllgor cynllunio. Byddai gan aelodau'r cyhoedd 4 munud i adrodd gwrthwynebiad i'r pwyllgor. Oherwydd prinder tai o fewn y gymuned mae datblygiad o 6 tŷ wedi ei glustnodi yn Is-y-Llan, Llanddarog.

**31/2022-2023** Taliadau.

Ardystiwyd y taliadau isod yn nghyfarfod mis Ebrill, a chadarnhawyd hwynt yng nghyfarfod mis Mai. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

| Dull Talu | Dyddiad | Cyflenwyr a Manylion | Swm £ gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|
| Ar-lein | 25/04/2022 | WCVACyf – 1592 | 21.30 |
| Ar-lein | 25/04/2022 | CThEM TWE – Cyfnod 1 | 110.00 |
| Ar-lein | 25/04/2022 | JG Evans – Cyflogres Ebrill | 420.02 |
| Ar-lein | 25/04/2022 | Catrin Llwyd – CCLL8 | 70.00 |
| Ar-lein | 26/04/2022 | Rhyngrwyd Paragon - 7013904 | 8.34 |
| Ar-lein | 26/04/2022 | Arwyddlun - 30563 | 462.24 |
| Ar-lein | 28/04/2022 | Nyth | 40.66 |

**32/2022-2023** Derbyniadau.

Cyngor Sir Caerfyrddin – Praesept 1.
29/04/2022 - £7085.26.

**33/2022-2023** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Llanddarog.

Cynigiodd y Cyng R Newell gynnydd yn y grant refeniw blynyddol i £550.00 ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E i ariannu'r rhodd grant. Pawb wedi cytuno.

Gadawodd y Cyng R Jones y cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda.

**34/2022-2023** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Neuadd Bentref Porthyrhyd.
Cynigiodd y Cyng R Newell gynnydd yn y grant refeniw blynyddol i £550.00 ac eiliwyd gan y Cyng M Rees i ariannu'r rhodd grant. Pawb wedi cytuno.

Ailymunodd y Cyng R Jones â'r cyfarfod.

**35/2022-2023** Cadarnhau grant refeniw blynyddol i Glwb Mynyddcerrig.
Cynigiodd y Cyng J Williams O.B.E gynnydd yn y grant refeniw blynyddol i £550.00 ac eiliwyd gan y Cyng M Rees i ariannu'r rhodd grant. Pawb wedi cytuno.

**36/2022-2023** I gadarnhau nawdd blynyddol i Sioe Llanddarog.
Cynigwyd y nawdd blynyddol o £200.00 a rhodd o £50.00 gan y Cyng. R Newell ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E. Pawb wedi cytuno.

**37/2022-2023** Cadarnhau adnewyddu Polisi Yswiriant Cyngor Cymuned.
Cynigodd y Cyng. M Rees ac eiliwyd gan y Cyng R Jones i adnewyddu'r polisi am y swm o £966.13. **Penderfynwyd** i'r Clerc drefnu taliad.

**38/2022-2023** Derbyn diweddariad ar garreg goffa Porth-y-rhyd.
Rhoddodd y Cyng J Williams O.B.E ddiweddariad i aelodau'r cyngor ynghylch y garreg goffa a dywedodd fod materion wedi'u hadrodd ynghylch rhai enwau ond nid oedd ymchwil annibynnol wedi canfod unrhyw anghysondebau. Awgrymodd y Cyng J Williams O.B.E y dylid ysgythru'r enwau ar blât pres hyd y gellir rhagweld cyn ysgythru ar blât efydd. Awgrymodd y Cyng M Rees ysgythru ar ddur morol i gael hirhoedledd.
Atgoffodd y Clerc aelodau’r cyngor ynglŷn â e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ar 17/01/2022 ynglŷn â’r posibilrwydd o drosglwyddo ased o lain o dir ger Cwm Catti i leoli’r garreg goffa. Trafodwyd y mater gan aelodau'r cyngor a chynigiwyd gan y Cyng Sir A Davies ac eiliwyd gan y Cyng J Williams O.B.E i'r Clerc ymholi am drosglwyddo'r ased.

**39/2022-2023** Ystyried cyfethol aelodau newydd o'r cyngor.
Adroddodd y Clerc mai dim ond 8 aelod o’r gymuned oedd yn aelodau o Gyngor Cymuned Llanddarog ar hyn o bryd a bod angen 3 aelod arall i gael cyngor llawn. Eglurodd y Clerc y byddai angen i’r cyngor cymuned gyfethol aelodau newydd drwy gwblhau’r dogfennau perthnasol a’u dychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin a’u harddangos ar y wefan a byrddau gwybodaeth lleol i ddenu aelodau newydd.
Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E a oedd angen cyfethol a rhoddodd gyfarwyddyd i'r Clerc i anfon tystiolaeth ysgrifenedig ymlaen cyn hysbysebu'r sefyllfa er bod y Clerc yn egluro cyfarwyddiadau Cyngor Sir Caerfyrddin. **Penderfynwyd** i'r Clerc anfon tystiolaeth i holl aelodau'r cyngor cyn cwblhau'r dogfennau perthnasol.

Gadawodd y cyfieithydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda.

**40/2022-2023** I drafod darparwr gwasanaethau cyfieithu ar gyfer 2022-2023.
Dywedodd y Cyng R Newell fod defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd cynghorau cymuned yn gost fawr ac yn faich ar gynghorau cymuned bach. Dadleuodd y Cyng R Jones fod aelodau o'r gymuned yn ariannu'r gwasanaeth yn flynyddol trwy eu taliadau Treth y Cyngor ac y dylai pob cyngor cymuned ddarparu gwasanaethau cyfieithu fel y nodir ym mholisi Cynllun yr Iaith Gymraeg.

Awgrymodd y Cyng R Jones y dylai Ms Catrin Llwyd aros fel cyfieithydd ar gyfer 2022 – 2023. Cytunodd holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** i’r Clerc hysbysu Ms Catrin Llwyd drwy e-bost.

Ailymunodd y cyfieithydd â'r cyfarfod.

**41/2022-2023**Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Cyhoeddodd y Cynghorydd S Herridge y byddai ei merch Ms Rhiannon Herridge yn canu yn nathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines yn Neuadd Bentref Llanarthne ar 05/06/2022.

Cynigiodd y Cyng R Jones bod y cyn Gynghorydd Sir a Chymuned y Cyng W Evans yn cael ei gyflwyno ag anrheg i goffau ei wasanaeth o dros 60 mlynedd i'r gymuned. Trafodwyd y mater, ac awgrymwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda aelodau'r teulu i drafod anrheg briodol a hysbysu aelodau'r cyngor cyn cyfarfod mis Mehefin ar 08/06/2022.

**42/2022-2023 Mewn camera 20.55.**

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

**43/2022-2023** Rhediad cyflog staff Mis Mai 2022.

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd.

Atgoffodd y Clerc aelodau'r cyngor hefyd fod y darparwr gwasanaeth cyflogres presennol yn dod i ben ar 30/06/2022. Awgrymodd y Clerc defnyddio'r un darparwr gwasanaeth cyflogres a Chyngor Cymuned Llanarthne, MJBBS Ltd. Cytunodd aelodau'r Cyngor gyda'r Clerc's argymhelliad, a phenderfynwyd cychwyn gyda MJBBS Ltd yng nghyflogres Gorffennaf. **Penderfynwyd** i'r Clerc drefnu.

**44/2022-2023** Daeth y cyfarfod i ben am 21.05.

Cadeirydd

______________________

Dyddiad

__________________